



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales

*Cefnogwyd gan Ymchwil
Iechyd a Gofal Cymru*

Strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol i Gymru 2018-2023

Crynodeb



Trosolwg

Mae'r cynllun hon yn nodi'r camau sydd angen i gyflawni ein gweledigaeth:

Ein gweledigaeth

I Gymru fod yn fyd-enwog
am waith ymchwil gofal
cymdeithasol rhagorol sy'n
cefnogi pobl Cymru trwy
lywio a gwella polisi
ac ymarfer gofal
cymdeithasol



Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bum maes:

Maes ffocws 1

Cynnwys y cyhoedd

Maes ffocws 2

Blaenoriaethau ymchwil

Maes ffocws 3

Defnyddio'r gwybodaeth rydym yn casglu fel mater o drefn

Maes ffocws 4

Cynnwys a ddatblygu'r gweithlu a sefydliadau

Maes ffocws 5

Cyfathrebu a defnyddio ymchwil

Ar gyfer pob maes, rydym wedi nodi cyfres o weithredoedd. Bydd yr holl sefydliadau sy'n gyfrifol am roi'r cynllun hwn ar waith yn cydweithio i sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cyflawni.

Trwy weithio gyda'r cyhoedd, pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a'u gofalwyr, gallwn datblygu gwell dealltwriaeth o ba ymchwil sydd angen ei gynnal.

Bydd hefyd yn rhoi gwell dealltwriaeth o sut y gall yr ymchwil hon cael effaith bositif lle mae ei angen.



Maes ffocws 1 – Cynnwys y cyhoedd

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gweithio gyda'n gilydd a rhoi llais go iawn i bobl dros y gofal a chymorth maent yn eu derbyn yn dau o'r pum egwyddor sy'n arwain cyfraith a pholisi gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn dilyn yr egwyddorion hyn.

Mae hwn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod pobl yn cael ei gynnwys gan benderfynnu:

- pa ymchwil gofal cymdeithasol sydd ei angen
- y ffordd orau i'w gyflawni
- sut yr ydym yn defnyddio'r hyn a ddysgw'n o'r ymchwil i wneud gwahaniaeth ofal cymdeithasol.

Bydd cynnwys pobl yn helpu ni i sicrhau bod ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ddefnyddiol ac yn effeithiol.

I helpu pobl i ddysgu am a chymryd rhan mewn ymchwil, bydd angen i ni:

- codi ymwybyddiaeth am ymchwil gofal cymdeithasol
- creu cyfleoedd i bobl gymryd rhan
- eu cefnogi i gymryd rhan

- sicrhau bod plant, pobl ifanc a phobl ag anghenion ychwanegol yn cael cyfle i gymryd rhan.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Gweithred 1: Creu system lle gall pobl gymryd rhan i benderfynu pa ymchwil sydd ei hangen, sut y gwneir yr ymchwil honno, a sut rydym yn defnyddo a rhannu'r canlyniadau.

Gweithred 2: Helpu'r sectorau ymchwil a gofal cymdeithasol i gynnwys pobl mewn ymchwil.

Gweithred 3: Edrych ar y ffordd gorau o gynnwys pobl wrth benderfynu y meysydd gofal cymdeithasol y dylai'r ymchwil canolbwyntio arni.

Gweithred 4: Gweithio gyda'n gilydd i benderfynu sut i hyrwyddo'r rhesymau y tu ôl, a'r manteision o, gynnwys pobl mewn ymchwil.



Maes ffocws 2 – Blaenoriaethau ymchwil

Pam mae hyn yn bwysig?

I sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym, byddwn yn datblygu prosiectau ymchwil sy'n edrych ar ychydig o feysydd penodol o ofal cymdeithasol.

Am y pum mlynedd nesaf, bydd ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru yn canolbwyntio ar:

- ofal cartref
- plant mewn gofal
- dementia.

Bydd angen i ni roi system ar waith i benderfynu y meysydd y bydd yr ymchwil yn canolbwyntio arni yn y dyfodol.

I sicrhau ein bod ni'n dewis y meysydd gofal cymdeithasol a fydd yn elwa mwyaf, mae angen i ni sicrhau bod y cyhoedd, gweithwyr a darparwyr gofal

cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ac ymchwilwyr yn rhan o'r penderfyniad hwn.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Gweithred 1: Gwneud y defnydd gorau o adnoddau ymchwil cyfyngedig trwy ganolbwyntio ar:

- ofal cartref
- plant mewn gofal
- dementia.

Gweithred 2: Datblygu system lle mae'r cyhoedd, pobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ac ymchwilwyr yn elpu ni i benderfynu y meysydd sydd angen ymchwil.



Maes ffocws 3 – Defnyddio'r gwybodaeth rydym yn casglu fel mater o drefn

Pam mae hyn yn bwysig?

Rydym eisoes wedi casglu llawer o wybodaeth am y gofal mae pobl yn ei dderbyn yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol oherwydd mae'n dweud wrthym:

- ansawdd y gofal mae pobl yn ei dderbyn
- os yw gofal yn gwella.

Cesglir y wybodaeth hon am nifer o resymau. Er enghraifft, i helpu gyda chynllunio ac adolygu'r gofal mae pobl yn ei dderbyn.

Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth hon i weld lle mae bylchau neu dueddiadau mewn gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae'n dangos i ni pa ofal sydd angen ar bobl mewn gwahanol rannau o Gymru a sut yr ydym yn rhannu'r adnoddau gofal cymdeithasol.

Mae gwybodaeth o feysydd eraill, megis iechyd, tai ac economeg, yn rhoi mwy o wybodaeth i ni am anghenion a materion pobl, a sut gallwn ni helpu i wella bywydau pobl.

Wrth gysylltu'r gwahanol ddarnau o wybodaeth, mae'n rhoi ffordd gostus ac effeithiol i ni weld yr effaith y mae gofal cymdeithasol yn cael ar y bobl sy'n ei dderbyn a hefyd ar y cyhoedd.

Mae SAIL Databank (Cyswllt Gwybodaeth Ddiennw Ddiogel) yn ffordd wych o gysylltu'r darnau hyn o wybodaeth. Mae'n ffordd ddiogel o storio gwybodaeth o nifer o ffynonellau ledled Cymru, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd gennym am iechyd y genedl.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Gweithred 1: Rhoi mynediad i wybodaeth am ofal cymdeithasol i sefydliadau. Dwyn ynghyd sefydliadau gofal cymdeithasol sydd â diddordeb, neu rôl i'w chwarae, wrth gasglu a chysylltu'r wybodaeth hon.

Gweithred 2: Gweithio gyda SAIL i weld a allwn gysylltu gwybodaeth gofal cymdeithasol, addysg, iechyd a thai yn y SAIL Databank.

Gweithred 3: Sefydlu set ddata cenedlaethol sy'n dal yr holl wybodaeth sydd eisoes wedi'i chasglu am ofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoli'r banc gwybodaeth hwn.



¹ saildatabank.com

Maes ffocws 4 – Cynnwys a ddatblygu'r gweithlu a sefydliadau

Pam mae hyn yn bwysig?

Os ydym am sicrhau bod Cymru yn ganolfan ymchwil gofal cymdeithasol rhagorol, mae angen arnom mwy o ymchwilwyr a phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i gynnal ymchwil o ansawdd uchel.

Bydd hyn yn ein helpu ni i ddatblygu ymchwilwyr newydd a phresennol, a'n helpu ni i ddenu fwy o adnoddau a phobl medrus i Gymru.

Ar hyn o bryd, dau reswm sy'n atal pobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol rhag cymryd rhan mewn ymchwil:

- diffyg amser
- diffyg sgiliau ymchwil.

Mae angen i ni sicrhau bod pobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol yn cael y cyfle, y sgiliau a chefnogaeth eu cyflogwyr i gynnal ymchwil a defnyddio'r canfyddiadau ohoni.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn edrych ar sut y gallwn roi'r sgiliau i weithwyr pan fyddwn yn adolygu hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol a datblygu cymwysterau newydd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r mwyafrif o ymchwil yn digwydd ym mhrifysgolion. Ond mae angen canllawiau clir ar gyfer ymchwil sy'n digwydd y tu allan i brifysgolion i sicrhau ei fod yn foesebol ac yn casglu'r caniatâd cywir gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Gweithred 1: Datblygu mwy o ymchwilwyr sy'n symud rhwng ymchwil a gofal cymdeithasol, a gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal ymchwil.

Gweithred 2: Datblygu mwy o ymchwilwyr, sy'n adnabyddus ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, i gynnal ymchwil o ansawdd uchel.

Gweithred 3: Helpu i sefydlu cysylltiadau gwell rhwng ymchwil a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i annog sefydliadau gofal cymdeithasol i gefnogi eu staff i gymryd rhan mewn ymchwil a defnyddio'r canfyddiadau.

Gweithred 4: Helpu i ddatblygu offer a systemau felly gall pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol cynnal ymchwil a defnyddio'r canlyniadau yn eu gwaith.

Gweithred 5: Helpu datblygu cymhellion i annog ymchwilwyr a phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i gynnal ymchwil, gan ddefnyddio enghreifftiau o ymchwil iechyd.

Gweithred 6: Cefnogi a dangos gwerth yr ymchwil, a'r gwybodaeth y mae'n rhoi i ni, ac adlewyrchu hyn yn yr arian a roddir ar gyfer ymchwil.

Gweithred 7: Adolygu systemau moeseg a chaniatâd ar gyfer ymchwilwyr.



Maes ffocws 5 – Cyfathrebu a defnyddio ymchwil

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae nifer o resymau yn atal pobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol rhag cynnal ymchwil a rhannu'r canfyddiadau:

- nid oes ganddynt mynediad at ganlyniadau'r ymchwil
- mae'r canfyddiadau ymchwil yn cael eu hysgrifennu a'u cyflwyno mewn ffordd gymhleth
- nid ydynt yn gwybod am yr astudiaethau ymchwil
- nid yw'r ymchwil a'i ddarganfyddiadau yn berthnasol nac yn ddefnyddiol iddynt.

Gall pobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol ond defnyddio ymchwil a rhannu'r canfyddiadau os oes ganddynt mynediad ati, felly mae angen i ni sicrhau bod ganddynt mynediad hawdd i'r ymchwil a'r wybodaeth sydd ar gael.

Bydd sicrhau bod y canlyniadau yn hawdd i'w deall yn annog mwy o bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol i'w defnyddio a'u rhannu.

Hefyd, mae angen i ymchwilwyr sicrhau eu bod nhw'n rhannu eu canfyddiadau gyda phobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol. I wneud hwn, mae angen i ni sefydlu cysylltiadau da rhwng sefydliadau gofal cymdeithasol a sefydliadau ymchwil. Bydd y cysylltiadau hyn yn helpu ymchwilwyr i gynllunio ymchwil a fydd yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i ofal cymdeithasol.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu system o'r enw *Llwybr symud gwybodaeth*. Mae'r system yn helpu ymchwilwyr:

- penderfynu pa ymchwil sydd ei hangen
- gweithio gyda phobl mewn gofal cymdeithasol i gynhyrchu'r ymchwil
- rhannu'r canlyniadau.

Gall sefydliadau sy'n talu am ymchwil, fel Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sicrhau bod ymchwil yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i ofal cymdeithasol trwy roi blaenoriaeth i'r prosiectau hynny pan fyddant yn rhoi arian ar gyfer ymchwil.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Gweithred 1: Bydd Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Cymru yn helpu i sefydlu cysylltiadau cryf rhwng gofal cymdeithasol ac ymchwil. Bydd hwn yn helpu gyda rhannu gwybodaeth.

Gweithred 2: Defnyddio'r *Llwybr symud gwybodaeth* i ddatblygu cynlluniau newydd. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu cynlluniau newydd sy'n seiliedig ar yr ymchwil sydd ar gael.

Gweithred 3: Datblygu ffordd o sicrhau bod gan bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol fynediad at adnoddau ymchwil, gan gynnwys y rhai sy'n benodol i Gymru.

Gweithred 4: Cyhoeddi canllawiau i helpu sefydliadau gofal cymdeithasol annog eu staff i gymryd rhan mewn ymchwil a defnyddio'r canlyniadau.

Gweithred 5: Helpu ymchwilwyr i gynllunio ymchwil a rhannu canfyddiadau sy'n ddefnyddiol i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

